*CYNGOR CYMUNED LLANDYSUL COMMUNITY COUNCIL*

**Cofnodion Cyfarfod Misol Cyngor Cymuned Llandysul Community Council a gynhaliwyd yng Nghanolfan Ieuenctid Tysul Youth Centre, Llandysul a thrwy gyfrwng Zoom, ar 11eg Rhagfyr 2023**
**Minutes of Monthly Meeting of Cyngor Cymuned Llandysul Community Council held at Canolfan Ieuenctid Tysul Youth Centre, Llandysul and via Zoom, on 11th December 2023**

**Yn Bresennol/Present:**
Cynghorwyr/Cllrs Eileen Curry, Keith Evans, Peter Evans, Elen Grantham, Andrew Howell, Gethin Jones, Sue Lloyd

**Ymddiheuriadau/Apologies** Cafwyd ymddiheuriadau gan Gynghorwyr Beth Davies, Douglas Davies, Heddwen Davies, Mike Hotson a Maldwyn Lewis / Apologies for absence were received from Cllrs Beth Davies, Douglas Davies, Heddwen Davies, Mike Hotson and Maldwyn Lewis.

**Datgelu Buddiannau/Declarations of Interest**
Ni ddatgelwyd unrhyw fuddiannau. Hysbysodd Cyng Keith Evans y Cyngor y bu ei gais am oddefeb ynghylch sefydliadau yn Llandysul yn llwyddiannus, a nodir manylion y rhain yn yr adran gohebiaeth. / There were no declerations of interest. Cllr Keith Evans informed the Council that he had succesfully applied for dispensation regarding organisations in Llandysul, details of which are set out under correspondance.

**Adroddiad/Report**

Cafwyd adroddiad gan PCSO Anwen Davies 8176, yn rhoi diweddariad am y Troseddau a'r Digwyddiadau yn ardal y Cyngor. Mynegodd yr aelodau eu diolch am yr adroddiad. / A report was received from PCSO Anwen Davies 8176 providing a Crime and Incident Update for the Councils area. Members extended their thanks and gratitude for the report.
Isod, gweler rhestr o'r troseddau a adroddwyd yn wardiau tref Llandysul, Pontsiân a Chapel Dewi.
Below is a list of crimes that were reported within Llandysul town, Pontsian and Capel Dewi wards.

**Adroddiad Tachwedd/November Report**
**Adroddwyd am 15 Trosedd, 1 Gweithgarwch amheus a 2 Ddigwyddiad yn ymwneud ag anifeiliaid**

Trosedd-Aflonyddu/Crime-Harrasment – 8
Y partïon yn adnabod ei gilydd / Parties known to each other
Trosedd – Domestig /– Domestics – 4
Pob parti yn adnabod ei gilydd / All parties known to each other
Ymosodiad – Assault – 1 – Y partïon yn adnabod ei gilydd / Parties known to each other
Difrod Troseddol / Criminal Damage – 1 adroddiad am ddifrod i glo gât / 1 report of damage to gate lock
Trosedd Byrgleriaeth / Crime Burglary – 1 adroddiad am fyrgleriaeth a difrod i eiddo busnes / 1 report of burglary and damage to business premises
Yn gysylltiedig ag anifeiliaid / Animal related – 2 adroddiad am boeni anifeiliaid / 2 reports of animal worrying
Gweithgarwch Amheus / Suspicious Activity – 1 adroddiad am yfed a gyrru / 1 report of drink drive.

CYMORTHFEYDD CYMUNEDOL / COMMUNITY SURGERIES

Capel Dewi – Bob bore dydd Iau / Thursday mornings 11:00
Pontsiân – Bob bore dydd Iau / Thursday mornings 11:30

**Cofnodion/Minutes**
Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod misol a gynhaliwyd ar 13 Tachwedd 2023 / Minutes of monthly meeting held on 13 November 2023 were confirmed

| | |
|---|---|
| **Materion yn Codi: -**<br>Ni chafwyd ymateb gan Sioe Cwmsychbant ynghylch y diffibriliwr.<br>**<u>Cyngor Sir</u>**<br>Cafwyd hysbysiad gan Gyngor Sir Ceredigion yn hysbysu o'r gweithhgarwch canlynol i gau ffyrdd er mwyn gwneud gwaith cynnal a chadw<br>Pontsiân - 08.01.24 – 12.01.24 – Gwaith ar y Bont<br>Rhydlewis – 20.01.24 – 23.01.24 – Gwaith Trwsio i'r Gwasanaeth Dŵr<br>Rhydlewis – 22.01.24-23.01.24 – Gwaith Polio<br>Capel Dewi – 29.01.24-30.01.24 – Gwaith Trwsio i'r Gwasanaeth Dŵr<br><br>**<u>Polisïau</u>**<br><br>Roedd Cyng Gethin Jones wedi cael cyfarfod gyda Rachel Carter, swyddog Lleoedd Lleol ar gyfer Natur i Un Llais Cymru er mwyn creu polisi bioamrywiaeth. Anfonodd y clerc gopi ymlaen at yr holl aelodau, i'w drafod yn ystod y cyfarfod ym mis Ionawr.<br><br>**4) Ceisiadau Ariannol:**<br><br>Ni chafwyd unrhyw geisiadau.<br><br>**5) Materion i'w Trafod**<br><br>**<u>Lle chwarae plant Llandysul</u>**<br>Nid oedd gan Gynghorwyr Mike Hotson ac Elen Grantham unrhyw ddiweddariadau am ffynonellau cyllid posibl er mwyn prynu offer chwarae newydd.<br>**<u>Meinciau a byrddau picnic</u>**<br>Lleolir meinciau yng Nghapel Dewi ac yn lle chwarae Llandysul pan fydd y tywydd yn well ac ar ôl i'r Cyngor roi caniatâd i leoliad y meinciau yng Nghapel Dewi.<br>**<u>Sedd Wag Llandysul</u>**<br>Ni fynegwyd diddordeb yn y sedd wag o hyd. Anogwyd yr aelodau i geisio canfod ymgeiswyr addas.<br>**<u>Gwaith Plannu/Chwynnu</u>**<br>Gwnaethpwyd gwaith plannu gan gwmni Porfa Llŷr Thomas. Bydd Cyng Andrew Howell yn cysylltu â Farm Yard ynghylch | **Matters Arising: -**<br>No response had been received from Cwmsychpant Show regarding the defbrilator.<br>**<u>County Council</u>**<br>Notification had been received from Ceredigion County Council informing of the following road closures for maintenence<br>Pontsian - 08.01.24 – 12.01.24-Bridge Works<br>Rhydlewis – 20.01.24 – 23.01.24 – Water Service Repair<br>Rhydlewis – 22.01.24-23.01.24 – Poling Works<br>Capel Dewi – 29.01.24-30.01.24 – Water Service Repair<br><br>**<u>Policies</u>**<br><br>Cllr Gethin Jones had a meeting with Rachel Carter Local Places for Nature' officer for One Voice Wales to create a biodiversity policy. The clerk forwarded a copy to all members to be discussed further at the January meeting.<br><br>**4) Funding Applications:**<br><br>None were received.<br><br>**5) Matters for Discussion**<br><br>**<u>Llandysul Children's Play area</u>**<br>Cllrs Mike Hotson and Elen Grantham had no updates with regards to possible funding avenues to purchase new play equipment.<br>**<u>Benches and picnic tables</u>**<br>Benches will be located in Capel Dewi and Llandysul play area once the weather is better and permission given by the Council to locate the Capel Dewi seating.<br>**<u>Llandysul Vacant Seat</u>**<br>There had still been no interest in the vacant seat. Members were encouraged to identify suitable candidates.<br>**<u>Planting/Weeding</u>**<br>Weeding had been undertaken by Porfa Llyr Thomas. Cllr Andrew Howell to |

| | |
|---|---|
| plannu Cennin Pedr. Nododd Cyng Keith Evans nad yw'r dysglau plannu yn Lôn Letty wedi cael eu chwynnu eto.<br>**<u>Materion Ward Brys</u>**<br><br>**<u>Pontsiân</u>**<br>Roedd yr arwydd 20 milltir yr awr ger Ael y Bryn wedi diflannu.<br>Mae angen glanhau'r arwyddion llinellau rhesog ger Gwardafolog ar fyrder.<br>Nid yw'r twll yn y ffordd ym Maesymeillion wedi cael ei lenwi o hyd.<br>Bydd y clerc yn cysylltu â'r Cyngor Sir ynghylch pob mater.<br><br>**<u>Capel Dewi</u>**<br>Nid yw Capel Dewi wedi cael arwyddion ynghylch Baw Cŵn o hyd (Cyfeirnod Clic: 543428)<br><br>Bydd y clerc yn cysylltu â'r Cyngor Sir ynghylch pob mater.<br><br>**<u>Llandysul</u>**<br>Mae angen glanhau cysgodfannau bysiau yn Llandysul.<br>Nid yw'r golau stryd i fyny i dafarn Kings Arms ar Stryd y Brenin yn gweithio o hyd.<br><br>**<u>Adroddiad gan Gynghorwyr Sir</u>**<br>Cafwyd gohebiaeth mewn neges e-bost yn rhoi gwybodaeth fanwl i'r Cyngor am weithgareddau Cyng Keith Evans, ward De Llandysul yn ystod y cyfnod rhwng 14 Tachwedd 2023 ac 11 Rhagfyr 2023.<br><br>**<u>Gohebiaeth</u>**<br>Cafwyd neges e-bost gan Gyngor Sir Ceredigion yn hysbysu, yn dilyn cyfarfod o'r Pwyllgor Moeseg a Safonau a gynhaliwyd ar 15 Tachwedd 2023, y rhoddwyd goddefeb am 12 mis i Gynghorydd Keith Evans siarad a phleidleisio ynghylch cyllid posibl ar gyfer Calon Tysul, Cymdeithas Chwaraeon Llandysul a Llandysul Pont-Tyweli Ymlaen Cyf. Bydd yr oddefeb yn dod i ben ar 14 Tachwedd 2024.<br><br>Cafwyd Clerks and Councils Direct a nodwyd hynny.<br>**<u>Cynllunio</u>** | contact Farm Yard with regards to planting of Daffodils. Cllr Keith Evans advised that the tub planters on Lon Letty had not been weeded yet.<br>**<u>Urgent Ward Matters</u>**<br><br>**<u>Pontsian</u>**<br>20 miles an hour sign by Ael y Bryn had disappeared.<br>The Cheverons by Gwardafolog needed cleaning urgently.<br>Pothole in Maesymeillion still hadn't been filled.<br>Clerk to contact the County Council on all matters.<br><br>**<u>Capel Dewi</u>**<br>Capel Dewi still hadn't received Dog Fouling signs (Clic Reference: 543428)<br><br>Clerk to contact the County Council on all matters.<br><br>**<u>Llandysul</u>**<br>Bus shelters in Llandysul needed to be cleaned.<br>Street light up to Kings Arms on King Street still weren't working.<br><br>**<u>Report by County Councillors</u>**<br>E-mail correspondence was received providing the Council with detailed information on Cllr Keith Evans Llandysul South wards' activities for the period 14 November 2023 to 11 December 2023.<br><br>**<u>Correspondence</u>**<br>An email was received from Ceredigion County Councilo to inform that further to a meeting of the Ethics & Standards Committee held on 15 November 2023, Cllr Keith Evans was granted a dispensation for 12 months to speak and vote on potential funding for Calon Tysul, Llandysul Sports Society and Llandysul Pont-Tyweli Ymlaen Cyf. The dispensation will expire on 14 November 2024.<br><br>Clerks and Councils Direct were received |

| | |
|---|---|
| Cefnogwyd y cynlluniau canlynol gan y Cyngor Cymuned ac ni wnaethpwyd unrhyw Wrthwynebiadau i'r cynigion:-<br>A230805 - Plot 4 Gelli Aur – Adeiladu annedd<br>A230746 – Pantyrelmen, Maesycrugiau – estyniad dau lawr i dŷ allan<br>A230829 – Tŷ Bliss, Llandysul – Masnachol a phreswyl cymysg i ddefnydd preswyl yn unig.<br>A230862 – Brynglas, Rhydowen – Addasiadau ac estyniad i annedd<br><br>**Gwybodaeth Ariannol**<br><br>Darparwyd gwybodaeth a chymeradwywyd sieciau.<br>**Llinos Jones** – Cafwyd anfoneb am y swm o £96.06 am y gwasanaeth cyfieithu ym mis Tachwedd a derbyniwyd y dylid ei thalu.<br>**Alan Evans** – Anfoneb am gasglu meinciau a'u cludo i'r lle chwarae plant. A hefyd, am gasglu dysglau blodau o Farmyard a'u lleoli yn Lôn Letty a derbyniwyd y dylid ei thalu.<br>**Un Llais Cymru** – Anfoneb o £38 am y Cwrs Ymsefydlu i Gynghorydd Newydd ar gyfer Heddwen Davies a derbyniwyd y dylid ei thalu.<br>**Meredith Williams** – Bil o £617 am Dorri Porfa ym Mhlas y Dderwen x8, y Maes Parcio gyferbyn â Neuadd Tysul x2, Llwybr Troed o ochr Stryd y Ffynnon x2, Cynnal a chadw yr Ardal wedi'i phlannu yn Stryd y Brenin, mynedfa y pwll nofio a mynedfa Glascoed a derbyniwyd y dylid ei thalu.<br>Archwilio Cymru – Ysgrifennwyd siec am y swm o £200 am Ffioedd Archwilio 2021/22.<br>Y Lleng Brydeinig – Ailysgrifennwyd siec am y swm o £75.00 gan bod y banc wedi gwrthod yr un gyntaf (001187). | and noted.<br>**Planning**<br><br>The following plans were supported by The Community Council and there were no Objections to the proposals: -<br>A230805 - Plot 4 Gelli Aur – Erection of dwelling<br>A230746 – Pantyrelmen, Maesycrugiau – two storey extension to outbuilding<br>A230829 – Ty Bliss, Llandysul – Mixed commercial and residential to soley residential use.<br>A230862 – Brynglas, Rhydowen – Alterations and extension to dwelling<br><br>**Financial Information**<br><br>Information provided cheques approved for payment.<br>**Llinos Jones** – Invoice for November translation was received for the sum of £96.06 and passed for payment.<br>**Alan Evans** – Invoice for collection of benches and dispatch to the childrens play-area. And also for collection of flower tubs from Farmyard and locating them on Lon Letty and passed for payment.<br>**One Voice Wales** – Invoice for New Councillor Induction Course for Heddwen Davies for £38 and passed for payment.<br>**Meredith Williams** – A bill for £617 for Grass Cutting at Plas y Dderwen x8, Car Park opposite Tysul Hall x2, Footpath from the side of Well Street x2, Maintenance of planted Area King Street, entrance of swimming pool and entrance of Glascoed and passed for payment.<br>Audit Wales – Cheques were written £200 for 2021/22 Audit Fees.<br>British Leigion – Cheque for £75.00 was re-written as the first one (001187) was declined with the bank. |

Arwyddo Sieciau/Signing of Cheques:

*Gorchmynnwyd ac i'w tynnu gan y Trysorydd/*
*Ordered and same are hereby drawn on the Treasurer:-*

| | | *£ c/£ p* | *Rhif siec Cheque number* |
|---|---|---|---|
| Alan Evans | Cynnal a Chadw | 90.00 | 001188 |
| Llinos Jones | Cyfieithu/Translating | 96.06 | 001189 |
| Meredith Williams | Cynnal a Chadw | 617.00 | 001190 |
| Audit Wales | Awdit/Audit | 200.00 | 001191 |
| Un llais Cymru | Course/Cyrsiau | 38.00 | 001192 |
| Nia Davies | Cyflog y Clerc | 530.44 | 001193 |
| HMRC | Cyflog y Clerc | 132.60 | 001194 |
| British Legion | Rhodd/Donation | 75.00 | 001195 |
| Teifi Valley Trail | Rhodd/Donation | 500.00 | 001196 |